

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

Cofnodion Cyfarfod Brys Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

21/7/2017

Presennol: Heledd Jones (Cadeirydd), Alwyn E Jones (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Huw P Roberts, Ian Trow

Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Rhodri Jones, Alwyn Roberts

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod ac eglurwyd ei fod yn un brys oherwydd cyfyngiadau amser ar "Gylch y Llan" i wneud gwaith ar y Ganolfan Treftadaeth yn Eglwys Deiniol Sant a mynwent yr Eglwys.
2. Derbyniwyd datganiad o fuddiant yn eitem 4 gan Beryl Hughes Griffiths (cysylltiad gyda Cylch y Llan) a gan Huw Antur yn eitem 6ii (aelod o staff Glanllyn).
3. Croesawyd Mel Williams i siarad ar fater 4 ar yr agenda. Rhoddodd hanes perchnogaeth yr Eglwys yn 2008, yr ymdrechion i gwblhau'r cynlluniau ers hynny a'r arian grant a sicrhawyd. Diolchwyd iddo am ei gyflwyniad.
4. Cadarnhawyd penderfyniad cyfarfod 5/2/13 i drosglwyddo mynwent a wal yr Eglwys i Gylch y Llan (am £1) ar ôl derbyn barn ein cyfreithiwr ar briodoldeb hyn. Dymunwyd yn dda i Gylch y Llan ar y fenter.
5. Dewiswyd cwmni Cyfreithwyr Gamlins i weithredu ar ran y Cyngor yn yr achos hwn. Cytunwyd i holi barn y Cyfreithwyr am gynnwys y dewis i ail-feddiannu'r fynwent pe byddai hynny'n opsiwn yn y dyfodol.
6. Ystyriwyd ceisiadau cynllunio diweddar a chytunwyd i gymeradwyo'r canlynol:
 - i. NP5/71/469 Adeiladu estyniad ochr llawr cyntaf, ac estyniadau deulawr ac unllaw i'r cefn, Bro Aber, Llanuwchllyn
 - ii. NP5/71/39Y Gosod pontŵn, Gwersyll yr Urdd, Glanllyn

Mater y Clerc: Er gwybodaeth, adroddodd y Clerc iddi ymateb i 3 ohebiaeth yn ymwneud a rheolau'r Fynwent Newydd trwy gynnig trefnu cyfarfod preifat gydag aelodau o is-bwyllgor y fynwent - pe bai hynny'n ddymuniad i'r unigolion a gysylltodd. Mae'r cynnig ar gael i unrhyw un arall sydd yn cysylltu gyda'r Clerc ar y mater. Bydd yr ymateb ar agenda cyfarfod Medi.